# Eur(2) 02-04(P10)

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac Allanol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 26 Chwefror 2004 |
| Amser: | 09:00 |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Teitl: | Hyrwyddo Cymru yn Rhyngwladol ar Ddydd Gwyl Dewi |

## Cefndir

1. Un o brif amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hyrwyddo a chodi proffil ac ymwybyddiaeth o Gymru dramor. Un o brif gonglfeini cyflawni’r nod yma yw trefnu digwyddiadau ar ein Diwrnod Cenedlaethol neu o gwmpas y diwrnod hwnnw. Cyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ychydig a wnaed gan y Llywodraeth yn ffurfiol i gofnodi Dydd Gwyl Dewi.
2. Ers dyfodiad y Cynulliad fodd bynnag rydym wedi defnyddio ein Diwrnod Cenedlaethol fel cyfrwng i hyrwyddo Cymru yn uniongyrchol – drwy ddigwyddiadau ac iddynt broffil uchel – ac yn anuniongyrchol – drwy weithio gyda Swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad dramor a’u cefnogi gan ddarparu ar eu cyfer wybodaeth ac eitemau hyrwyddo sy’n rhoi amlygrwydd i Gymru fel lle penigamp i fyw, astudio, ymweld a gwneud busnes. Un nod fu sefydlu Dydd Gwyl Dewi yng nghalendr holl swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad dramor.
3. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod mai’r allwedd i hyrwyddo Cymru dramor yw ansawdd ac yn y flwyddyn gyntaf canolbwyntiwyd ar benderfynu ar y gynulleidfa darged a datblygu pecyn cyfathrebu o safon uchel. Fe’i lansiwyd ar Ddydd Gwyl Dewi 2001 gan roi cychwyn ar raglen o ymweliadau, digwyddiadau a rhannu gwybodaeth er mwyn hyrwyddo Cymru ar Ddydd Gwyl Dewi ac o gwmpas y cyfnod hwnnw bob blwyddyn:

## Dydd Gwyl Dewi

- **2001**

| Digwyddiad a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad | Gweithio gyda’r Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
| --- | --- |
| Fforwm - Cymru Ewrop a’r Byd<br><br>Amcan y digwyddiad hwn oedd codi proffil Cymru a’r Cynulliad ymhlith y Corfflu Diplomyddol yn Llundain a lansio Wales World Nation sef cyfres o ddeunydd yn hyrwyddo Cymru.<br><br>Bu lansio’r pecyn Wales World Nation yn gam positif iawn o ran dylanwad gweladwy digwyddiadau a drefnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Thîm Cymru i hyrwyddo Cymru dramor ac o ran ansawdd y deunydd sydd ar gael i berswadio pobl eraill i gefnogi achos Cymru.<br><br>Denodd yr achlysur gynrychiolwyr o daleithiau eraill sy’n Aelodau o’r Undeb Ewropeaidd, Uwch Gomisiynwyr a Llysgenhadon a hefyd nifer o ffigurau blaenllaw o’r byd cyhoeddus yng Nghymru. Bu Taoiseach Iwerddon, Bertie Ahern TD, yn rhan o’r Fforwm ar y cyd â Phrif Weinidog Cymru a Brian Wilson, AS, Gweinidog Ynni Llywodraeth y DU ar y pryd.<br><br>O ganlyniad uniongyrchol i’r achlysur hwn bu cynnydd sylweddol yn syth yn nifer y diplomyddion ac ymwelwyr o dramor a ddaeth ar ymweliad â Chymru. Ni welwyd unrhyw leihad yn y nifer hwn. | Yn dilyn lansiad swyddogol y pecyn cyfathrebu Wales World Nation fe’i hanfonwyd i holl swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a’r Cyngor Prydeinig ledled y byd.<br><br>Bu lansio’r pecyn Wales World Nation yn gam positif iawn o ran dylanwad gweladwy digwyddiadau a drefnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Thîm Cymru i hyrwyddo Cymru dramor ac o ran ansawdd y deunydd sydd ar gael i berswadio pobl eraill i gefnogi achos Cymru. |

- **2002**

| Digwyddiad a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad | Gweithio gyda’r Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
|---|---|
| Penwythnos Cymru yn Efrog Newydd 2002<br><br>Yr amcan oedd gweithio gydag asiantaethau allweddol i hyrwyddo Cymru yn Efrog Newydd drwy drefnu cyfres o ddigwyddiadau a fyddai’n canolbwyntio ar amrywiaeth a rhagoriaeth Cymru.<br><br>Cafwyd tyrfa dda o bobl yn dod i’r digwyddiadau ac o ganlyniad sefydlwyd rhwydweithiau dylanwadol, anffurfiol yn yr Unol Daleithiau.<br><br>Ymhlith y digwyddiadau a gafodd cryn sylw gan y cyfryngau oedd lansio yn UDA y Cwpan Ryder yng Nghymru yn 2010 ac ymgyrch hysbysebu Bwrdd Croeso Cymru yn UDA. | Anfonwyd erthygl am Gymru at bob swyddfa dramor a dderbyniodd cyn hynny y pecyn Wales World Nation. Gwelwyd nifer o swyddfeydd hefyd yn derbyn y cynnig o gael deunydd hyrwyddo. |

Bob blwyddyn byddwn yn adeiladu ar y datblygiadau a wnaed:

- **2003**

| Digwyddiad(au) a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad | Gweithio gyda’r Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Wythnos Cymru ym Mrwsel 2003 – Dyfodol Cynaliadwy<br><br>Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau gan Dîm Cymru ym Mrwsel er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o greu llwyfan i hyrwyddo Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ymhlith y gymuned wleidyddol Ewropeaidd yn y ddinas.<br><br>Daeth tyrfa dda ynghyd i bob un o'r digwyddiadau a chafwyd adborth cadarnhaol gan yr is-adrannau polisi yn y Cynulliad a chan y bobl hynny a fu'n bresennol yn y seminarau. Ystyrir y bu'r digwyddiad yn llwyddiannus iawn.<br><br>Efrog Newydd<br><br>Gan adeiladu ar lwyddiant y digwyddiadau yn 2002 a'r rhwydweithiau anffurfiol a sefydlwyd cyn hynny, trefnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dderbyniad i roi cychwyn ar y digwyddiadau Dydd Gwyl Dewi ond manteisiwyd i'r eithaf ar sicrhau sylw yn y cyfryngau drwy weithio gydag eraill i gyflwyno ar eu cyfer becyn integredig o 'ddigwyddiadau Dydd Gwyl Dewi' drwy gydol yr wythnos, gan gynnwys goleuo twr yr Empire State Building yn lliwiau baner Cymru. Ymhlith y sylw a gafwyd yn y wasg oedd sylw ar rwydwaith y sianeli teledu. | Mewn ymateb i gais a anfonwyd gennym ni, anfonodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad delegram i'w holl Swyddfeydd yn eu hannog i ddefnyddio Dydd Gwyl Dewi i hyrwyddo Cymru.<br><br>Paratowyd gan Brif Weinidog Cymru neges Dydd Gwyl Dewi ac fe'i hanfonwyd i'r holl Swyddfeydd er mwyn ei darllen yn ystod digwyddiadau a drefnwyd a/neu i'w chyhoeddi'n lleol. Unwaith eto, darparwyd deunydd hyrwyddo hefyd. Bu taflen yn cynnwys gwybodaeth elfennol am Gymru megis y faner, symbolau o Gymru a'r nawddsant yn boblogaidd iawn.<br><br>Cawsom wybod gan 37 o Swyddfeydd fod ganddynt gynlluniau i ddathlu Dydd Gwyl Dewi. Ymhlith y digwyddiadau a drefnwyd oedd ciniawau, arddangosfeydd, gwefannau wedi'u cynllunio'n arbennig a digwyddiadau busnes ac addysgol. |

4. Cynlluniau ar gyfer Dydd Gwyl Dewi yn y dyfodol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i barhau i adeiladu ar yr hyn a wnaed hyd yma yn hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ar ei diwrnod cenedlaethol. Yn 2004, bydd Gweinidogion yn chwifio baner Cymru mewn tri safle dramor.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Swyddfeydd dramor. Yn sgil ein llwyddiant yn cynnwys Dydd Gwyl Dewi ar galendr y Swyddfa Dramor a Chymanwlad fodd bynnag byddwn yn camu'n ôl o roi'r

sylw cynhwysfawr yma iddo ac yn darparu deunyddiau hyrwyddo mewn ymateb i gais amdanynt yn unig. Byddwn hefyd yn ystyried ymgyrchoedd mwy penodol wedi'u cynllunio i greu'r argraff fwyaf posib.

| Digwyddiad(au) a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad | Gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
|---|---|
| Paris<br><br>Byddaf yn cynnal cinio busnes canol dydd yn y Llysgenhadaeth Brydeinig ym Mharis a chyn hynny gyfarfod briffio ar gyfer cyfryngau Ffrainc. Bydd Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ym Mharis hefyd i hyrwyddo diwylliant Cymru. Bydd yntau hefyd yn cynnal cinio canol dydd wedi'i drefnu gan Gyngor Llyfrau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Llenyddiaeth Cymru Dramor er mwyn codi proffil llenorion a chyhoeddwyr Cymru. Bydd hefyd yn mynd i gyfarfod rhwydweithio a chinio yn y Llysgenhadaeth Brydeinig wedi'i drefnu gan Lywodraeth y Cynulliad, Bwrdd Croeso Cymru a'r Llysgenhadaeth er mwyn hyrwyddo Cymru. Gan weithio'n agos â Chyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru, rhoddir lle amlwg i fwyd o Gymru yn rhan o'r holl baratoadau.<br><br>Brwsel<br><br>Bydd Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn bresennol mewn cinio Dydd Gwyl Dewi a fydd yn cael ei drefnu gan Lysgennad Prydain i Wlad Belg. Yn hwyrach y nos ar Ddydd Gwyl Dewi byddaf yn cynnal derbyniad yn y Bibliotheque Solvay, wedi'i drefnu gan Lywodraeth | Rydym yn annog Llysgenadaethau, Swyddfeydd Is-genhadon ac Uwch Gomisiynwyr yn arbennig i chwifio baner Cymru i ddathlu Dydd Gwyl Dewi. Mae dros 70 o Swyddfeydd wedi datgan eu bwriad i'w nodi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Rydym yn parhau i'w cefnogi drwy anfon atynt wybodaeth, deunydd hyrwyddo a chanllawiau ar hyrwyddo Cymru. |

Cynulliad Cymru. Ymhlith y gwesteion fydd pobl allweddol o fewn y Comisiwn, Aelodau Senedd Ewrop, diplomyddion a llunwyr barn.

Efrog Newydd

Gan adeiladu ar y momentwm a grëwyd yn Efrog Newydd bydd Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, yn ymgymryd â rhaglen o weithgareddau i gyd-daro â Dydd Gwyl Dewi. Ymhlith y digwyddiadau fydd: derbyniad a fydd yn cael ei amseru i gyd-daro â goleuo’r Empire State Building yn lliwiau baner Cymru; taith mewn bws o gwmpas Manhattan yng nghwmni tywysydd er mwyn dangos dylanwad Cymru ar Efrog Newydd yn yr oes a fu a’r oes bresennol; dathliad Dydd Gwyl Dewi yng Nghnaolfan Ryngwladol Cymru a derbyniad yn Swyddfa’r Is-gennad i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Gan weithio’n agos â Chyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru, rhoddir lle amlwg i fwyd o Gymru yn rhan o’r holl baratoadau.

Yn ogystal â’r digwyddiadau hyn bydd y Gweinidog hefyd yn ymgymryd â rhaglen o gyfarfodydd busnes yn unol â’i bortffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

**Rhodri Morgan**

**Prif Weinidog Cymru**